Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Hysbysiad mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac na'u gosodir gerbron y Cynulliad** |
| **DYDDIAD** | **10 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

## Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop Etc. (Darpariaethau Diddymu, Dirymu, Diwygio ac Arbed) (Y Deyrnas Unedig a Gibraltar) (Ymadael â'r UE) 2018

**Cyfraith sy'n cael ei diwygio**
Mae'r OS hwn yn mynd i'r afael â methiant cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol, a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. I grynhoi, mae'r offeryn drafft yn dileu cyfeiriadau at Aelodau Senedd Ewrop, Senedd Ewrop ac Etholiadau Senedd Ewrop o ddeddfwriaeth etholiadol pan na fyddant bellach yn gymwys ar ôl y diwrnod ymadael.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Diben y diwygiadau**
Diben yr OS hwn yw cywiro diffygion yn neddfwriaeth y DU, yn ddarostyngedig i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn ymwneud ag Etholiadau Senedd Ewrop etc.

I grynhoi, bydd yr OS hwn yn dileu cyfeiriadau at Aelodau Senedd Ewrop ac Etholiadau Senedd Ewrop pan na fyddant bellach yn gymwys ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae'r OS, o gwnaed a'r 3 Ragfyr 2018, a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith y diwygiad hwn, ar gael yma:

http://www.legislation.gov.uk/uksi/2018/1310/contents/made

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad, ac fe wnaed y ddeddfwriaeth wreiddiol cyn datganoli.  O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru cyn hir yn gosod fel rhan o'r broses Sifftio Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018. Mae rhai darpariaethau yn yr offeryn hwn yn ddibynnol ar wneud Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop etc. (Darpariaethau Diddymu, Dirymu, Diwygio ac Arbed) (Y Deyrnas Unedig a Gibraltar) (Ymadael â'r UE) 2018.

Rhoddwyd cydsyniad i osod OS fel rhan o'r broses sifftio cyn y cytunwyd ar y newidiadau i Reol Sefydlog 30C.